

At: Gadeirydd ac Aelodau'r Pwyllgor  
Archwilio Partneriaethau

Dyddiad: 27 Ebrill 2018

Rhif Union: 01824 712554

ebost: [democrataidd@sirddinbych.gov.uk](mailto:democrataidd@sirddinbych.gov.uk)

Annwyl Gynghorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **PWYLLGOR ARCHWILIO PARTNERIAETHAU, DYDD IAU, 3 MAI 2018 am 10.00 am yn SIAMBR Y CYNGOR, TY RUSSELL, Y RHYL.**

**NODWCH FOD BRIFFIO I BOB AELOD ETHOLEDIG AM 9.30 A.M YN SYTH CYN Y CYFARFOD**

Yn gywir iawn

G Williams  
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd

## **AGENDA**

### **RHAN 1 – GWAHODDIR Y WASG A'R CYHOEDD I FOD YN BRESENNOL AR GYFER Y RHAN HON O'R CYFARFOD**

#### **1 YMDDIHEURIADAU**

#### **2 DATGANIADAU O FUDDIANT (Tudalennau 5 - 6)**

Dylai'r Aelodau ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu ag unrhyw fater a nodwyd fel un i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

#### **3 MATERION BRYD FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD**

Rhybudd o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

**4 DIWEDDARIAD AR Y CYNLLUN GWEITHREDU ATAL DIGARTREFEDD**  
(Tudalennau 7 - 16)

Ystyried adroddiad gan y Swyddog Comisiynu Atal Digartrefedd (copi ynghlwm) yn diweddarau aelodau ar gynnydd gweithredu Cynllun Gweithredu Atal Digartrefedd.

**10.05 a.m. – 10.45 a.m.**

**EGWYL**

**5 CYLLIDEBAU CEFNOGI I BOBL AG ANGHENION GOFAL A CHEFNOGAETH CYMWYS** (Tudalennau 17 - 34)

Ystyried Adroddiad gan y Prif Reolwr: Gwasanaethau Cymorth Cymunedol yn ymwneud â gwneud newidiadau i ddyraniad cyllid i unigolion sy'n gymwys am ofal wedi'i reoli a chynllun gofal yn Sir Ddinbych.

**11.00 a.m. – 11.45 a.m.**

**6 RHAGLEN WAITH ARCHWILIO** (Tudalennau 35 - 48)

Ystyried adroddiad gan y Cydlynnydd Archwilio (copi ynghlwm) yn gofyn am adolygiad o raglen gwaith i'r dyfodol y pwyllgor a rhoi'r diweddaraf i'r aelodau ar faterion perthnasol.

**11.45 a.m. – 12 noon**

**7 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR PWYLLGORAU**

Derbyn unrhyw ddiweddariadau gan gynrychiolwyr y Pwyllgor ar Fyrddau a Grwpiau amrywiol y Cyngor.

**12 noon – 12.05 p.m.**

**RHAN 2 - MATERION CYFRINACHOL**

Dim Eitemau.

**AELODAETH**

**Y Cynghorwyr**

Jeanette Chamberlain-Jones  
(Cadeirydd)

Emrys Wynne (Is-Gadeirydd)

Joan Butterfield  
Gareth Davies  
Hugh Irving  
Pat Jones  
Christine Marston

Melvyn Mile  
Andrew Thomas  
Rhys Thomas  
David Williams

**COPIAU I'R:**

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth  
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd  
Cynghorau Tref a Chymuned

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

DEDDF LLYWODRAETH LEOL 2000

Cod Ymddygiad Aelodau

## DATGELU A CHOFRESTRU BUDDIANNAU

Rwyf i,  
(enw)

\*Aelod /Aelod cyfetholedig o  
(\*dileuer un)

Cyngor Sir Ddinbych

**YN CADARNHAU** fy mod wedi datgan buddiant **\*personol / personol a sy'n rhagfarnu** nas datgelwyd eisoes yn ôl darpariaeth Rhan III cod ymddygiad y Cyngor Sir i Aelodau am y canlynol:-  
(\*dileuer un)

Dyddiad Datgelu:

Pwyllgor (nodwch):

Agenda eitem

Pwnc:

Natur y Buddiant:

(Gweler y nodyn isod)\*

Llofnod

Dyddiad

Noder: Rhowch ddigon o fanylion os gwelwch yn dda, e.e. 'Fi yw perchennog y tir sy'n gyfagos i'r cais ar gyfer caniatâd cynllunio a wnaed gan Mr Jones', neu 'Mae fy ngŵr / ngwraig yn un o weithwyr y cwmni sydd wedi gwneud cais am gymorth ariannol'.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

<b>Adroddiad i'r:</b>	<b>Pwyllgor Archwilio Partneriaethau</b>
<b>Dyddiad y Cyfarfod:</b>	<b>3 Mai 2018</b>
<b>Aelod/Swyddog Arweiniol:</b>	<b>Aelod Arweiniol ar gyfer Llesiant ac Annibyniaeth/ Pennaeth Gwasanaethau Cymorth Cymunedol</b>
<b>Awdur yr Adroddiad:</b>	<b>Swyddog Comisiynu Atal Digartrefedd</b>
<b>Teitl:</b>	<b>Diweddariad ar y Cynllun Gweithredu Atal Digartrefedd</b>

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor Archwilio Partneriaethau ar gynnydd y Cynllun Gweithredu Atal Digartrefedd, yn cynnwys y camau sydd angen gan Strategaeth Ddigartrefedd Sir Ddinbych 2017-21, Cynllun (Comisiynu) Blyneddol Cefnogi Pobl / Atal Digartrefedd Sir Ddinbych, ac argymhellion adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru: 'Sut mae Llywodraeth Leol yn Rheoli Galw – Digartrefedd' (Mis Ionawr 2018).

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

I roi gwybod am y cynnydd hyd yma wrth gyflwyno'r Cynllun Gweithredu Atal Digartrefedd (gan gynnwys y sefyllfa ddiweddaraf mewn perthynas â dyfodol cyllid Cefnogi Pobl). Cytunwyd yn y Pwyllgor Archwilio ym mis Tachwedd 2017 i gyflwyno adroddiad cynnydd ar weithredu'r Strategaeth a'r Cynllun (y Cynllun Gweithredu) i'w gyflwyno i'r Pwyllgor yn ei gyfarfod ym mis Mai 2018.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

- 3.1 I'r Pwyllgor Archwilio gefnogi darpariaeth y Cynllun Gweithredu Atal Digartrefedd i sicrhau fod pawb yn cael eu cefnogi i fyw mewn cartrefi sy'n diwallu eu hanghenion;
- 3.2 I'r Pwyllgor Archwilio fod yn sicr fod cynlluniau'n cael eu datblygu i liniaru unrhyw risgiau sy'n gysylltiedig â'r bwriad posibl yn y dyfodol i ddiddymu'r sicrwydd a roddir i gyllid Cefnogi Pobl ar hyn o bryd ar gyfer gwaith atal digartrefedd.

## 4. Manylion yr Adroddiad

- 4.1 Mae Tîm Atal Digartrefedd Sir Ddinbych yn parhau i ddatblygu a gweithio yn ôl cynllun gweithredu eang, yn seiliedig ar Strategaeth Digartrefedd Sir Ddinbych 2017-21 (y Strategaeth) a Chynllun Comisiynu Blyneddol Cefnogi Pobl / Atal Digartrefedd 2018/19 (y Cynllun), yn ogystal ag argymhellion adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru: 'Sut mae Llywodraeth Leol yn Rheoli Galw – Digartrefedd' (Mis Ionawr 2018).
- 4.2 Mae'r Strategaeth, sy'n cynnig cyfeiriad cyffredinol, wedi cael ei ddatblygu, a bydd yn cael ei ddarparu, yn unol â'r gofyniad statudol a osodwyd arnom fel Awdurdod Lleol

gan Ddeddf Tai (Cymru) 2014. Mae'n rhaid i'r Strategaeth gael ei chyflawni mewn partneriaeth ar draws adrannau'r cyngor a chyda ein partneriaid allanol, os ydym am lwyddo i wireddu gweledigaeth y Strategaeth: I roi stop ar ddigartrefedd yn Sir Ddinbych. Mae hyn yn bwysicach o ystyried y pwysau sydd ar y gyllideb Atal Digartrefedd.

- 4.3. Mae'r tabl yn Atodiad 1 yn cynnig diweddariad trosolwg ar gamau allweddol ar gyfer 2017/18 a 2018/19, wedi eu grwpio o dan feysydd blaenoriaeth yn seiliedig ar gasgliad o flaenoriaethau a amlinellir yn y Strategaeth, y Cynllun, ac wyth argymhelliad adroddiad SAC, fel a ganlyn:
- 4.3.1. Datblygu Gwasanaeth Atal Digartrefedd Holistaidd, sydd wedi ei hysbysu'n seicolegol
  - 4.3.2. Atal Digartrefedd yn Erbyn y Prif Achosion, gan gynnwys trechu tlodi
  - 4.3.3. Lleihau'r defnydd o Lety Dros Dro, a cheisio dod a diwedd i'r defnydd o Lety Gwely a Brecwast.
  - 4.3.4. Gwella Mynediad at Lety
  - 4.3.5. Datblygu ymagwedd integredig tuag at gefnogi pobl gydag anghenion lluosog / cymhleth
  - 4.3.6. Atal Digartrefedd Pobl Ifanc, gan gynnwys mewnoli dull 'Llwybr Cadarnhaol'
  - 4.3.7. Cynnwys Dinasyddion
  - 4.3.8. Cynaliadwyedd cefnogaeth yn ymwneud â thai, gan gynnwys cynyddu darpariaeth bresennol

## **5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Mae'r Cynllun Gweithredu yn cyfrannu at gefnogi Cynllun Corfforaethol Sir Ddinbych 2017-22 yn y meysydd canlynol:

- Mae pawb yn cael eu cefnogi i fyw mewn cartrefi sy'n diwallu eu hanghenion
- Mae'r Cyngor yn gweithio gyda phobl a chymunedau i gynyddu annibyniaeth a chadernid
- Mae pobl iau eisiau byw a gweithio yma, ac mae ganddynt y sgiliau i wneud hynny

## **6. Faint fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

- 6.1. Bydd gan gamau gweithredu gofynnol parhaus ac yn y dyfodol oblygiadau sylweddol ar gyfer y gyllideb ddigartrefedd statudol a'r Grant Cefnogi Pobl - y mae'r olaf o'r rhain wedi'i glustnodi gan Lywodraeth Cymru, ac y mae'r cyntaf yn dod o'r gyllideb Gwasanaethau Cymorth Cymunedol ganolog.
- 6.2 Fel gydag unrhyw strategaeth/cynllun gweithredu, bydd angen buddsoddiad adnoddau sylweddol. Bydd hyn yn cael ei reoli o fewn y cyllidebau presennol sydd wedi'u dyrannu; ond bydd gofyn hefyd i'r Tîm Atal Digartrefedd weithio a buddsoddi ar y cyd â phartneriaid mewnol ac allanol. Bydd unrhyw gynlluniau o'r fath yn cael eu datblygu a'u rheoli trwy'r sianelau perthnasol, gan gynnwys y Grŵp Cynllunio Atal Digartrefedd. Mae hefyd yn hanfodol i ni gael cefnogaeth ar bob lefel, gan gynnwys yn gorfforaethol.



## **7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?**

Mae Asesiadau Effaith Lles eisoes wedi cael eu cwblhau a'u rhannu gyda'r Pwyllgorau Archwilio a'r Cabinet yn 2017 yn ystod datblygiad y Strategaeth a'r Cynllun.

## **8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi eu cynnal gyda'r Pwyllgor Archwilio ac eraill?**

8.1. Mae'r Strategaeth wedi'i seilio ar ganfyddiadau Adolygiad Digartrefedd 2016, a lywiwyd gan ymgynghoriad sylweddol. Yna, datblygwyd y strategaeth ei hun yn bennaf gan y Grŵp Llywio Atal Digartrefedd amlasiantaeth, gyda mewnbwn ychwanegol gan y Grŵp Cynllunio Atal Digartrefedd (sef Cefnogi Pobl yn flaenorol). Mae hefyd wedi bod trwy gyfnod ymgynghori ffurfiol (13/07/2017 - 10/08/2017), pan geisiwyd adborth dinasyddion, darparwyr gwasanaethau a'n partneriaid eraill. Ymgynghorwyd ar y Cynllun hefyd yn y Diwrnod Atal Digartrefedd Blynyddol ym mis Awst, lle'r oedd nifer o ddinasyddion a budd-ddeiliaid eraill yn bresennol. Yn dilyn y Pwyllgor Archwilio Partneriaethau ym mis Tachwedd 2017, cymeradwywyd y Strategaeth gan y Cabinet ym mis Rhagfyr 2017.

8.2 Mae'r blaenoriaethau a'r camau gweithredu a nodir yn y Cynllun Blynyddol wedi'u llywio gan ystod o wybodaeth y buom yn ei chasglu drwy gydol y flwyddyn, gan gynnwys barn dinasyddion, gyda'n Swyddog Cynnwys Dinasyddion yn cydweithio'n agos ar brosiectau i sicrhau bod lleisiau pobl yn cael eu clywed. Ar bob cam yn natblygiad y Cynllun, ymgynghorwyd â'r Grŵp Cynllunio Atal Digartrefedd, a chafwyd eu cymeradwyaeth. Bu'r Cynllun hefyd trwy gyfnod ymgynghori ffurfiol (27/06/2017 - 22/08/2017), pan gafodd ei drafod mewn nifer o fforymau cynllunio ac eraill. Ymgynghorwyd ar y Cynllun hefyd yn y Diwrnod Atal Digartrefedd Blynyddol ym mis Awst, lle'r oedd nifer o ddinasyddion a budd-ddeiliaid eraill yn bresennol. Yn dilyn y Pwyllgor Archwilio Partneriaethau ym mis Tachwedd 2017, cymeradwywyd y Strategaeth gan y Cabinet ym mis Rhagfyr 2017.

## **9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Bydd y goblygiadau o ran cost yn dod yn fwy eglur wrth i'r ddau gynllun ddatblygu, a dylent gael eu cadw o fewn yr adnoddau sydd ar gael. Er y credir bod lefelau cyllido'r grant Cefnogi Pobl yn sefydlog ar y cyfan yn y tymor byr, gallai newidiadau i bolisi neu ddsbarthiad gael effaith yn y dyfodol. Dull cyffredinol y cyngor yw trosglwyddo gostyngiadau mewn arian grant ymlaen i'r maes gwasanaeth a ddarperir.

## **10. Pa risgiau sydd yna ac oes yna unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

10.1. Er gwaethaf cyhoeddiadau cyllideb diweddar gan Lywodraeth Cymru yn nodi na fydd y Grant Cefnogi Pobl yn cael ei leihau ar lefel genedlaethol, gallai Llywodraeth Cymru barhau o hyd gyda fformiwla ailddosbarthu'r Grant CP. Byddai hyn yn golygu gostyngiad yn y grant i Sir Ddinbych yn y dyfodol.

10.2. Rhaid i ni hefyd aros am ganlyniad yr uwch grant arfaethedig, a chyfrannu at ei ddatblygiad lle bo modd, i sicrhau fod gwasanaethau atal digartrefedd rheng flaen yn cael eu diogelu. Mae canllawiau gan Lywodraeth Cymru yn amhendiant ar hyn o bryd.

Mae Sir Ddinbych wrthi'n cynllunio'n barhaus i liniaru unrhyw ostyngiad yn y grant yn y dyfodol, er mwyn sicrhau bod y cynllun yn parhau'n ariannol hyfyw ac o fewn yr adnoddau sydd ar gael.

#### **11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

Amlinellir pwerau Archwilio o ran craffu ac adolygu ar berfformiad y Cyngor mewn perthynas â'i amcanion polisi, targedau perfformiad a/neu feysydd gwasanaeth arbennig yn Adran 7.4.2(b) o Gyfansoddiad y Cyngor.

#### **Swyddog Cyswllt:**

Swyddog Comisiynu Atal Digartrefedd

Ffôn: 01824 712304

## Denbighshire Homelessness Prevention Action Plan

Priority Area	Progress since 2017	Future Actions & Considerations for 2018/19
<p style="writing-mode: vertical-rl; transform: rotate(180deg);">Tudalen 11</p> <p><b>Develop a Holistic Homelessness Prevention Service, that is psychologically informed</b></p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Remodelled four Supporting People (SP) contracts, creating one Multi-Disciplinary Homelessness Prevention project that will commence 1<sup>st</sup> June 2018. The project will provide holistic homelessness prevention support to people with a range of needs. <b>R.1.2</b></li> <li>Homelessness Prevention Officers have chosen individual specialisms (e.g. mental health) to lead on.</li> <li>PIE development - All of the Team (and a lot of our commissioned services) have had Psychologically Informed Environment (PIE) training – we are committed to developing all of our services to become PIEs.</li> <li>We have developed a number of joint homelessness prevention protocols with key agencies, e.g. Shelter Cymru, Children’s Social Services. <b>R.6</b></li> <li>We have recently trailed a new triage service, providing first contact information, advice and assistance to people experiencing housing problems. <b>R.3.2</b></li> <li>Case file systems have been improved to allow for more streamlined and needs-led service delivery.</li> <li>We have developed a user friendly homelessness prevention advice leaflet, and are working on improving our other resources. <b>R.4; R.5</b></li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>We will continue to look at opportunities to remodel commissioned services, to ensure they deliver multi-disciplinary support that is needs-led.</li> <li>Learning from the triage pilot to inform future commissioning. <b>R.3.3</b></li> <li>Further work to be undertaken to improve our online presence (including developing online tools, supporting people to help themselves through online advice/signposting). We will work with ICT and Communications to reach SOCTIM four star rating. <b>R.5</b></li> <li>A range of Homelessness Prevention Service KPIs are to be developed, ensuring high standards of delivery across a broad range of service functions. <b>R.4</b></li> <li>Clear service standards will also be published, also incorporating the findings of the service review in line with the Equal Ground Standard (see Citizen Involvement priority area, below). <b>R.4</b></li> <li>Further development of PIEs, to include further staff training around areas such as ACEs (adverse childhood experiences), complex trauma and motivational interviewing, and beginning to use reflective practice. <b>R.1.1</b></li> <li>Some further joint protocols with key partners to be developed/finalised. <b>R.6</b></li> </ul>
<p><b>Prevention of Homelessness Against the Main</b></p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>There is now a clear corporate commitment to tackle homelessness and its causes in Denbighshire</li> <li>Community Navigator post to commence in 2018; foremost in response to the upcoming introduction of Universal Credit, they will be based primarily in the Job</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Training programme to be developed in 2018/19, to ensure homelessness prevention awareness amongst key agencies. Will need to consider how</li> </ul>

<p><b>Causes, including tackling poverty</b></p>	<p><b>Centre, offering early intervention advice, support and assistance to prevent homelessness. R.3</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Universal Credit awareness training offered to all Homelessness Prevention (including commissioned services) staff in 2017/18.</li> <li>• Prison Resettlement Officer post to commence in 2018, ensuring the effective delivery of the Prisoner Pathway, ensuring early intervention and coordinated support and accommodation options to prevent homelessness amongst people leaving prison.</li> <li>• Working closely with employment support agencies, including DCC Strategic Employment, to ensure that people who are homeless or threatened with homelessness are able to access employment opportunities. This includes supporting the development of work experience opportunities.</li> <li>• Pre-eviction protocol developed with Community Housing.</li> <li>• Continued work to improve relationships with private sector landlords, including dedicated tenancy sustainment support for people moving on from temporary accommodation.</li> <li>• KPIs including very low level eviction targets are being included in all new SP contracts.</li> <li>• Paperwork and processes have been updated to ensure/allow for more creative options to be explored to prevent homelessness (e.g. use of the Homelessness Prevention Fund).</li> <li>• <b>Awareness raising of mediation, with this often being a key element of a support offer to prevent homelessness due to relationship (e.g. family, landlord) breakdown. R.1.1</b></li> <li>• <b>We continue to closely monitor emerging needs (significantly revising our needs mapping system in 2017 to ensure a more valid and reliable picture of needs to inform service commissioning and delivery). This includes equality and diversity monitoring, which informs Team training (e.g. transgender awareness training). R.7</b></li> </ul>	<p>YouTube/social media could effectively be utilised for this awareness raising.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Domestic Abuse homelessness prevention services to be reviewed/developed in 2018/19 in line with new commissioning guidance from Welsh Government.</li> <li>• Pre-eviction protocol to be finalised with other RSLs.</li> <li>• Ongoing work to allow the focus to really shift from reaction to prevention – resources and partnership working will be key to this.</li> </ul>
<p><b>Reduce the use of Temporary Accommodation</b></p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• <b>Support service remodels and KPIs have been developed to support statutory homelessness functions, including swifter move on from, and preventing the use in the first place of temporary accommodation. R.6</b></li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• DCC corporately will need to make decisions around funding of temporary accommodation / sourcing</li> </ul>

<p><b>and seek to end the use of Bed &amp; Breakfast Accommodation</b></p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Protocol developed with the Single Pathway (SP referrals Team) to ensure everyone in temporary accommodation can access SP support where needed.</li> <li>• Continued close working with SARTH (Single Access Route to Housing).*</li> <li>• Continued work to improve availability in the private sector via improving landlord relations and developing the landlord offer.</li> <li>• Significant work undertaken to reduce rent arrears amongst people in temporary accommodation, ensuring that arrears will not be a barrier to move on.</li> <li>• Projects with Public Protection and Crest are to commence in 2018, supporting the provision of quality move on accommodation – ensuring compliance with legal standards, and that accommodation is also of a standard to improve wellbeing, and that people are equipped with the skills and confidence to maintain their home (e.g. undertaking practical maintenance tasks).</li> </ul>	<p>alternative options – this is not something that the Homelessness Prevention Team can do in isolation.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Targets around reducing the use of B&amp;B accommodation will be incorporated into the Homelessness Prevention KPIs (as referenced above)</li> <li>• <b>*Further work is needed to ensure a fully coordinated approach between SARTH and the Homelessness Prevention Team. R.6</b></li> </ul>
<p><b>Improve Access to Accommodation</b></p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Public Protection and Crest posts, as above.</li> <li>• <b>KPIs including target time frames for sourcing accommodation are being included in all new SP contracts. R.6</b></li> <li>• Obtained grant funding for 5 internal and external homelessness prevention staff members to be trained in delivering the ‘Renting Ready’ course, equipping people who are homeless or threatened with homelessness with the skills and confidence to sustain a tenancy (e.g. manage bills, cook on a budget etc.)</li> <li>• KPIs including target levels of citizen access of Renting Ready are being included in all new SP contracts.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Move-on panel/protocol, in line with Homeless Link Guidance and best practice must be developed. This is a significant project that we aren’t currently able to undertake within current resources – this will need to be looked at in 2018/19.</li> <li>• Working with Communities, Assets and Housing, to be involved in work around utilising empty homes.</li> <li>• We will review the two rent bond schemes in Denbighshire, to avoid duplication and maximise citizen outcomes.</li> </ul>

<p><b>Develop an integrated approach to supporting people with multiple/complex needs</b></p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Secured dedicated high standard temporary accommodation for people with serious mental health issues, working closely with mental health services to provide specialist support packages.</li> <li>Continued close working with mental health services, including close working with hospital discharge, attending ward rounds, and contributing to the North Wales Together for Mental Health Local Implementation Team.</li> <li>Integrated Housing First consultancy/development work has been commissioned in 2017/18 – to scope needs, build partnerships, identify accommodation sources and develop an integrated Housing First service specification. R.6</li> <li>Developed a Tenancy Enabler service in the DCC Complex Disabilities Team, enabling people with learning disabilities / acquired brain injury / autistic spectrum disorder to move on to more independent accommodation, reducing the demand on statutory managed care/support services.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Developing the multi-agency Denbighshire Homelessness Forum is a priority. With the loss of the Homelessness Strategy Officer, we will need to consider resources to get the Forum off the ground.</li> <li>A lot of joined up working will be needed to develop an integrated Housing First service, based on the findings of the consultancy/development work in 2017/18. Homelessness Prevention cannot deliver Housing First in isolation.</li> <li>We must continue to explore options for best supporting people with serious alcohol use problems, including looking at options around safe drinking environments offering holistic support, and learning from Alcohol Concern’s ‘Blue Light’ multi-agency harm reduction agenda.</li> </ul>
<p><b>Prevent Youth Homelessness, including embedding a ‘Positive Pathway’ approach</b></p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Developed Young People’s Positive Pathway Project – a partnership between Homelessness Prevention, Children’s Services and Youth Justice – providing dedicated homelessness prevention interventions and support for all young people (up to 25) presenting as homeless/at risk of homelessness to DCC. As a result of the project’s development, in 2017/18, between quarter and quarter 3, referrals for formal support reduced significantly from an average of 83% to 39% - with young people being empowered to use their own strengths and resources, and remain in the family home wherever possible.</li> <li>The Dyfodol young people’s supported housing project continues to be remodelled, with the Collaborative Agreement for the new service due to commence in October 2018. The new service will be better geared up to supporting young people with a range of needs, offering more appropriate accommodation to best safeguard and improve the wellbeing and other outcomes of young people supported. R.6</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Improving employment opportunities for young people continues to be absolutely vital, so that they are able to afford to live in their own accommodation. We will support the trial project offering DCC catering work experience placements, in the pipeline for this year. We must also contribute to work in DCC to develop strategic employment.</li> <li>We must work alongside DCC Housing Strategy and other partners to consider options for shared accommodation in future.</li> <li>Community housing accommodation to be identified that can be solely maintained for 16/17 year olds – work needs to be done to ensure a joined up commitment and understanding of roles and responsibilities across key partners, including Homelessness Prevention, Children’s Services etc.</li> </ul>

<p><b>Citizen Involvement</b></p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• DCC Homelessness Prevention Citizen Involvement Policy finalised in 2017 – setting out our commitments and service standards in relation to meaningful involvement and co-production in all that we do. R.4</li> <li>• Citizen Involvement Officer has begun a series of citizen consultations – part of reviewing our overall service in line with Equal Ground Standard. R.4</li> <li>• Citizen Involvement Officer and Commissioning Officer have begun to work far more closely, including joint visits to meet supported housing residents, to ensure that citizen feedback is a much more organic part of our commissioning.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Homelessness Prevention service review in line with the Equal Ground standard to continue.</li> <li>• The Annual Commissioning Plan and Homelessness Prevention Day must be far more citizen led – this must be a real co-production project in 2018.</li> </ul>
<p><b>The sustainability of housing related support, including maximising existing provision</b></p> <p style="writing-mode: vertical-rl; transform: rotate(180deg);">Tudalen 15</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• The Supporting People and Homelessness Prevention Teams merged in 2017, enabling a far more integrated approach and maximisation of resources, supporting greater sustainability, especially in light of future proposed funding changes (the 'Super Grant')</li> <li>• We now have less dependency on the SP Grant for Homelessness Prevention roles – from April 2018 all Grant Administration Staff are funded via, and sit within, central Community Support Services.</li> <li>• Continuing to contribute to consultations around the future of supported housing funding regimes.</li> <li>• We have critically reviewed the activities undertaken by the Homelessness Prevention Officers, to determine aspects of work that can be completed by other roles within the service and ensure a focus on prevention. This has helped to inform the development of the triage pilot and the Community Navigator post. R.1.1; R.1.3; R.8</li> <li>• We are also working to ensure that commissioned services best complement statutory functions, including via the KPIs incorporated into each new SP contract, and rolling out a programme of awareness raising/training on the work of the Homelessness Prevention Team amongst all of our commissioned services. R.6</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• We must await the outcome of the proposed super grant, and contribute to its development wherever possible, to ensure that front-line homelessness prevention services are protected. Guidance from Welsh Government is at present inconclusive.</li> <li>• DCC Strategic Employment and Strategic Planning are leading on preparations for the grant changes, which we will support throughout the year.</li> <li>• We will self-assess our service in 2018/19 according to the WAO 'Key considerations for local authorities in managing demand' checklist. R.8</li> </ul>

Mae tudalen hwn yn fwiadol wag



<b>Adroddiad at:</b>	<b>Pwyllgor Archwilio Partneriaethau</b>
<b>Dyddiad y Cyfarfod:</b>	<b>3 Mai 2018</b>
<b>Aelod/Swyddog Arweiniol:</b>	<b>Aelod Arweiniol Lles ac Annibyniaeth/ Pennaeth y Gwasanaethau Cymorth Cymunedol</b>
<b>Awdur yr Adroddiad:</b>	<b>Prif Reolwr: Gwasanaethau Cymorth Cymunedol</b>
<b>Teitl:</b>	<b>Cyllidebau Cymorth ar gyfer Pobl ag Anghenion Gofal a Chymorth Cymwys</b>

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Cyllidebau Cymorth yw'r ymadrodd sy'n cael ei gynnig i ddisgrifio'r mathau o ariannu fydd ar gael i unigolion sy'n gymwys ar gyfer cynllun cymorth a gofal wedi'i reoli yn Sir Ddinbych. Mae'r Gwasanaethau Cymorth Cymunedol wedi bod yn gweithio am nifer o flynyddoedd i ddatblygu eu holl feysydd gwaith i gyd-fynd â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Cymru (Cymru) 2014. Mae'r Gwasanaethau Cymorth Cymunedol bellach yn newid y prosesau a'r dull o ddyrannu arian i unigolion yn bennaf er mwyn rhoi mwy o ddewis, llais a rheolaeth i'r bobl sy'n derbyn cymorth.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Rhoi gwybodaeth ynglŷn â'r newidiadau fydd yn cael eu cyflwyno i'r dull o ddyrannu arian i ddinasyddion cymwys a sut gall y newidiadau rheini effeithio arnynt a'r darparwyr cymorth lleol wrth i ni sefydlu Cyllidebau Cymorth fel y sefyllfa rhagosodedig o fewn y Gwasanaeth Cymorth Cymunedol.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod y Pwyllgor yn cadarnhau ei fod:

- 3.1 wedi darllen a deall y newidiadau fydd yn cael eu cyflwyno ac wedi mynegi unrhyw bryderon sydd ganddo; a'i fod
- 3.2 wedi darllen a deall ac ystyried yr Asesiad o'r Effaith ar Les (Atodiad 1) fel rhan o'i ystyriaeth.

## 4. Manylion yr adroddiad

### 4.1 Safle Blaenorol

I'r rhan fwyaf o bobl sydd â phhecyn gofal a chymorth, y ffordd flaenorol o weithio oedd bod staff gofal cymdeithasol yn gweithio gydag unigolyn i nodi gydag ef/hi a'r teulu/gofalwr beth yw anghenion yr unigolyn hwnnw er mwyn diwallu ei anghenion ac i wneud trefniadau gyda darparwr gofal a chymorth. Mae'r unigolyn yn cael ei asesu'n ariannol ac yn cael gwybod faint sydd yn rhaid iddo dalu. Mae contract yn cael ei rhoi yn ei le rhwng y Cyngor a'r darparwr, a fydd yn aml yn seiliedig ar yr

amser sydd ei angen i gwblhau'r tasgau a nodwyd. Mae'r pecyn yn cael ei adolygu'n flynyddol i sicrhau bod y darparwr yn cyflenwi'r oriau a bod y gofal yn foddhaol.

Mae rhai pobl wedi cael cynnig Taliad Uniongyrchol, hynny yw, bod yr arian yn cael ei roi'n uniongyrchol i'r unigolyn er mwyn iddo ef/hi drefnu ei ofal a chymorth neu unrhyw gostau a gytunwyd yn ei gynllun gofal a chymorth. Mae hyn yn aml yn cynnwys cyflogi Cynorthwyr Personol. Yn Sir Ddinbych, mae cymorth yn cael ei roi i helpu unigolion i ddod yn gyflogwyr a hynny gan un sefydliad arbenigol penodol ar gyfer e.e. gwasanaeth cyflogres neu gyngor arbenigol Adnoddau Dynol. Hyd yma nid yw Sir Ddinbych wedi bod yn llwyddiannus iawn wrth hyrwyddo Taliadau Uniongyrchol ac mae mwyafrif y bobl sy'n eu derbyn yn bobl ifanc, anabl.

## 4.2 Sefyllfa sy'n Newid

Nifer y bobl oedd yn derbyn Taliad Uniongyrchol neu'r hyn a arferai gael ei alw'n Gymorth a Gyfarwyddir gan Ddinasyddion ar ddyddiad cyfrifiad ar ddiwedd Rhagfyr 2017 oedd 82. Ar ôl i ni newid y system gofnodi yn PARIS er mwyn paratoi ar gyfer adlewyrchu'r 3 math newydd o Gyllidebau Cymorth, i'w defnyddio fel mesur gwaelodlin, doedd dim Cyllidebau ychwanegol yn cael eu Rheoli gan Awdurdodau Lleol; roedd 1 cyllideb ychwanegol yn cael ei rheoli gan 3<sup>ydd</sup> parti ac roedd 15 o bobl ychwanegol yn hunanreoli eu cyllideb.

Mae staff rheng-flaen eisoes wedi dechrau cael sgysiau gwahanol gyda dinasyddion, sef sgysiau 'beth sy'n bwysig i chi?'; hynny yw, yn hytrach na gofyn iddynt 'beth sy'n bod arnoch chi?', rydym yn gofyn iddynt beth sy'n bwysig iddynt ac ar sail y sgwrs honno rydym yn penderfynu a ydynt yn gymwys i gael gofal a chymorth drwy gymhwyso'r olwyn adnoddau. Mae hwn yn offeryn sy'n sicrhau ein bod yn gweithredu ar sail asedau ac yn gwneud y mwyaf o gryfderau personol pobl a'r cymorth all fod ar gael iddynt o fewn eu teuluoedd a'u cymunedau. Dylai'r sgysiau hyn arwain at ddeilliannau y gellir eu gweld yn glir yn y pecyn gofal a chymorth sydd i'w gyflenwi. Rydym yn datblygu prosesau i gomisiynu a chontractio deilliannau ac yn awr mae angen i ni fwrw ymlaen â'r dull hwn. Mae'r newidiadau yn cynnwys y nodweddion a ganlyn:

- Yn ystod y sgwrs a ddisgrifiwyd uchod, byddwn hefyd yn holi faint o ddewis a rheolaeth mae unigolyn yn dymuno ei gael dros y dull o gyflenwi ei gynllun gofal a chymorth
- Mae System Dyrannu Adnoddau yn cael ei hystyried i nodi cyllideb ddangosol ar gyfer pob unigolyn a bydd yr unigolyn yn cael gwybod beth fydd y gyllideb ddangosol honno ar gyfer y flwyddyn.
- Yn dibynnu ar faint o ddewis a rheolaeth mae unigolyn yn dymuno ei gael, bydd un o 3 llwybr yn cael ei ddewis; cyllideb sy'n cael ei rheoli gan Awdurdod Lleol; cyllideb sy'n cael ei rheoli gan drydydd parti (broceriaeth) a chyllideb sy'n cael ei hunanreoli (Taliad Uniongyrchol) Gweler y siart llif yn atodiad 2
- Dylai'r gwaith o Gynllunio Gofal a Chymorth bob amser gynnwys yr unigolyn ond bydd y gwaith o'i hwyluso yn wahanol gan alluogi continwrm o ran y dewis sydd ar gael a'r rheolaeth dros y broses hon.
- Bydd y gwaith o awdurdodi'r Cynllun Gofal a Chymorth yn cael ei wneud o fewn y Gwasanaethau Cymorth Cymunedol er mwyn sicrhau bod y cynllun arfaethedig yn gyfreithlon; ei fod yn debygol o fodloni'r deilliannau gofynnol; a'i fod yn debygol o gael ei gyflenwi o fewn y gyllideb.

- Bydd yn rhaid i gontractau newid a bydd y chwaraewyr yn wahanol i'r rhai presennol.
- Ni fydd y gwasanaeth broceriaeth /cymorth arbenigol bellach yn cael ei ddarparu gan un asiantaeth, yn wahanol i'r drefn rydym wedi ei defnyddio am flynyddoedd. Gall gynnwys ymarferiad tendro.
- Mae'r arian yn debygol o gael ei ddsbarthu drwy system cerdyn blaendaledig a bydd ein Tîm Asesu Ariannol ein hunain yn cynnig gwasanaeth cyfrifon wedi'i reoli.
- Bydd perfformiad y darparwyr yn cael ei adolygu ar sail y deilliannau maent wedi llwyddo i'w cyflawni gyda'r unigolion ac ar eu rhan.

Gellir defnyddio'r arian a ddyrannwyd i unigolion mewn ffordd greadigol, cyn belled bod y deiliant a gytunwyd ac sy'n ddymunol yn cael ei gyflawni. Cyflwynodd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Cymru newidiadau er mwyn sicrhau bod modd defnyddio arian yn fwy hyblyg e.e. gall pobl brynu gwasanaethau mewnol; a gallent gyflogi aelodau o'r teulu. Gallent hyd yn oed ddefnyddio'r arian mewn ffordd greadigol e.e. i dalu am docyn awyren i aelod o'r teulu er mwyn darparu gofal seibiannol, neu docyn tymor i glwb pêl-droed. Mae deall y rhesymeg y tu ôl i'r datblygiadau hyn yn bwysig o ystyried bod yr arian yn dod o'r pwrs cyhoeddus. Mae enghraifft o achos sy'n dangos y manteision wedi'i chynnwys yn atodiad 3.

Mae prosiect yn mynd rhagddo i baratoi ar gyfer y newidiadau hyn a bydd strategaeth a gytunwyd yn cael ei chyflwyno i ddatblygu'r gweithlu a dulliau cyfathrebu.

## **5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Mae blaenoriaeth gorfforaethol y Cyngor i weithio gyda phobl a chymunedau er mwyn adeiladu annibyniaeth a chydnerthedd wrth galon y datblygiad hwn. Dylai'r pwyslais ar gomisiynu gofal a chymorth ar sail deilliannau sicrhau bod pobl yn hapus, annibynnol a chydnerth yn hytrach na'u bod yn cael eu gwasgu i'r gwasanaethau traddodiadol. Bydd hyn yn ei dro yn cefnogi gofalwyr.

Bydd pobl yn gallu siapio eu cymunedau os bydd ganddynt fwy o ddewis a rheolaeth, yn enwedig fel cyflogwyr neu wrth weithio gyda brocer 3ydd parti. Bydd y cysyniad o gyllidebau sy'n cael eu rheoli gan yr Awdurdod Lleol yn adeiladu ar y drefn o gomisiynu darparwyr ar gyfer ardaloedd daearyddol, a fydd yn weddol gyson â ffiniau'r Timau Adnoddau Cymunedol. Bydd hyn yn arwain at ganlyniad cadarnhaol, a gobeithir bydd y darparwyr hyn yn dechrau dod yn rhan greiddiol o'r timau iechyd a gofal cymdeithasol yn yr ardaloedd rheini, gan gyflenwi gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol di-dor.

## **6. Faint bydd hyn yn costio a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i ehangu'r maes hwn, fodd bynnag, rhagwelir y bydd y datblygiad hwn yn cael ei reoli o fewn adnoddau presennol. Mae'r gwaith o gomisiynu ar gyfer deilliannau yn rhywbeth mae angen i ni weithio arno gyda darparwyr presennol. Trwy gyflwyno canllawiau mwy clir ar gyfer broceriaeth a chymorth arbenigol, dylai hyn olygu y byddwn yn gweithio gyda grŵp mwy eang o sefydliadau na'r un asiantaeth rydym yn

gweithio gyda hi ar hyn o bryd. Mae'n debygol bydd rhai swyddi yn newid dros amser a bydd yn rhaid dadansoddi a monitro effaith hyn.

Bydd yn rhaid cyflwyno newidiadau i'r systemau TG, yn enwedig y cofnodion ariannol a'r rhai sy'n ymwneud â chleientiaid, er mwyn monitro cynnydd a'r effaith ar y gyllideb gofal cymunedol.

## **7. Beth yw prif ganlyniadau'r Asesiad o Effaith ar Les?**

Er ei fod yn cael ei ystyried yn ddatblygiad cadarnhaol yn gyffredinol, mae'r asesiad o effaith ar les wedi pwysleisio'r angen am fwy o waith manwl gyda phartneriaid, yn benodol:

- darparwyr annibynnol y sector gofal er mwyn sicrhau eu bod yn deall ac yn gallu gwneud y mwyaf o'r cyfleoedd a ddaw yn sgil Cyllidebau Cymorth a
- chydweithwyr lechyd y bydd angen iddynt ddeall y ffyrdd newydd o weithio, yn enwedig wrth i ni ddechrau gweithio gyda'n gilydd mewn timau integredig.

Mae'r asesiad hefyd wedi amlygu'r angen i hyrwyddo natur gadarnhaol y datblygiad hwn mewn perthynas â'r iaith Gymraeg, nid yn unig ar gyfer siaradwyr Cymraeg unigol a allai gyflogi pobl yn eu cymunedau Cymraeg lleol ond mae potensial hefyd i ddatblygu gwasanaeth brocera Cymraeg i weithio gyda'r sector Addysg Uwch cyn i fyfyrwyr ddechrau troi eu cefn ar yr iaith a rhoi'r gorau i'w defnyddio.

## **8. Pa ymgynghori sydd wedi digwydd gyda'r Pwyllgor Archwilio ac eraill?**

Cynhaliwyd dau gyfarfod gyda darparwyr y sector annibynnol lle trafodwyd y cysyniad cyffredinol o Gyllidebau Cymorth yn fras. Mae'r Grŵp Cyllideb Cymorth Byw yn y Gymuned wedi cymryd rhan yn y trafodaethau hyn a bydd gweithdy yn cael ei gynnal yn cynnwys darparwyr a staff i nodi elfennau cynllun gofal a chymorth da ar gyfer gwaith comisiynu yn seiliedig ar ddeilliannau. Mae'r Gwasanaeth hefyd wedi bod yn rhannu adborth cadarnhaol gan unigolion sydd wedi derbyn Cyllidebau Cymorth yn fwy diweddar, gan roi hyblygrwydd a dewis.

Dyma'r adroddiad cyflwyniadol cyntaf i'r Pwyllgor Craffu Partneriaethau. Mae'r weledigaeth ar gyfer datblygu'r gwaith hwn yn atodiad 4

## **9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Ni ddylai symud at gyllidebau cymorth lle bo hynny'n briodol gynyddu cost pecynnau gofal, yn wir, mewn rhai achosion gall arwain at leihau costau. Bydd yn bwysig i fonitro effaith y newidiadau er mwyn bod yn sail i waith cynllunio a thybiaethau yn y dyfodol.

## **10. Pa risgiau sy'n bodoli ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Bydd y risg o gael llai o reolaeth dros y ffordd bydd y gyllideb yn cael ei defnyddio, yn cael ei liniaru gan ddatblygu a monitro contractau yn gadarn a hefyd yn sgil y ffaith bod gennym Wasanaeth cyfrifon mewnol sy'n cael ei reoli.

Er mwyn paratoi ar gyfer y twf posibl mewn cyllidebau hunanreoledig, rydym yn cynnig dod â'r rhan hon o'r broses rheoli ariannol yn fewnol a thrwy ddefnyddio cardiau blaendaledig bydd hyn yn galluogi'r Awdurdod i fetio pobl a rhoi gofal a chymorth iddynt, a hefyd lliniaru'r risg bydd arian yn cael ei gamreoli. Yn ogystal â hyn, gall achosion o dalu gormod neu arian segur gael eu hadennill yn uniongyrchol ac yn hawdd gan yr Awdurdod, yn wahanol i'r sefyllfa bresennol lle rydym yn wynebu canlyniad araf, ansicr wrth geisio adennill arian gan bobl sydd wedi'i dderbyn.

## **11. Pŵer i wneud Penderfyniad**

Mae Adran 7 o Gyfansoddiad y Cyngor yn amlinellu'r pwerau Archwilio mewn perthynas â datblygu ac adolygu polisi a pherfformiad yr Awdurdod wrth fodloni amcanion polisi.

### **Swyddog Cyswllt:**

Prif Reolwr: Gwasanaethau Cymorth Cymunedol

Rhif ffôn: 01824 706501

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

# Support Budgets

## Wellbeing Impact Assessment Report

This report summarises the likely impact of a proposal on the social, economic, environmental and cultural well-being of Denbighshire, Wales and the world.

Assessment Number:	397
Brief description:	Support Budgets is the proposed phrase to describe the types of funding that will be made available to individuals who are eligible for a managed care and support plan within Denbighshire. Community Support Services (CSS) have been on a journey for several years to develop all areas of practice in line with the Social Services and Well-Being (Wales) Act 2014. The Service is now changing the processes and the approach to the allocation of money to individuals predominantly to increase the choice, voice and control of the people they support.
Date Completed:	12/04/2018 13:30:35 Version: 3
Completed by:	Cathy Curtis-Nelson
Responsible Service:	Community Support Services
Localities affected by the proposal:	Whole County,

# IMPACT ASSESSMENT SUMMARY AND CONCLUSION

